# Y Bwrdd Rheoli

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Gynhadledd 4B – Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 12 Mai 2016** |
| Amser: | 10.30 – 12.30 |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: MB (05-16)

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Claire Clancy (Prif Weithredwr a Chlerc) (Cadeirydd)<br>Adrian Crompton (Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad)<br>Anna Daniel (Pennaeth Trawsnewid Strategol)<br>Non Gwilym (Pennaeth Cyfathrebu)<br>Elisabeth Jones (Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol)<br>Nia Morgan (Pennaeth Gwasanaethau Ariannol)<br>Mark Neilson (Pennaeth TGCh)<br>Mair Parry-Jones (Pennaeth y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi)<br>Kathryn Potter (Pennaeth y Gwasanaeth Ymchwil)<br>Mike Snook (Pennaeth Pobl a Lleoedd)<br>Craig Stephenson (Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Comisiwn)<br>Dave Tosh (Cyfarwyddwr Adnoddau'r Cynulliad)<br>Chris Warner (Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth)<br>Siân Wilkins (Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau) |
| Staff y Pwyllgor: | Liz Jardine (Secretariat) |
| Eraill yn bresennol: | Gareth Watts (Pennaeth Dros Dro Llywodraethu ac Archwilio) |

Lowri Williams (Pennaeth Adnoddau Dynol)
Sulafa Thomas (Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn a Throsglwyddo i'r Pumed Cynulliad)

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a datganiadau o fuddiant

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

Cydnabu'r Bwrdd ymddeoliad Mike Snook a dymunodd yn dda iddo, gan gytuno y byddai colled fawr ar ei ôl.

## 2 Nodyn cyfathrebu i staff - Craig Stephenson

Bydd Craig Stephenson yn drafftio nodyn ynghylch trafodaethau'r Bwrdd Rheoli ar gyfer y dudalen newyddion.

## 3 Cofnodion y cyfarfod diwethaf - 14 Ebrill

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod y Bwrdd Rheoli a gynhaliwyd ar 14 Ebrill yn gofnod cywir.

## 4 Trafodaeth yn dilyn yr etholiad

Ystyriodd y Bwrdd etholiad y Cynulliad a dyddiau cynnar y Pumed Cynulliad, gan gynnwys cyfarfodydd cychwynnol gyda'r Llywydd newydd. Rhoddodd Aelodau newydd ac Aelodau a ailetholwyd adborth cadarnhaol iawn ynghylch y croeso cyfeillgar a phroffesiynol a'r trefniadau tyngu llw a gawsant.

## 5 Dangosfwrdd pontio i'r Pumed Cynulliad - Mai 2016

Nododd y Bwrdd y dangosfwrdd pontio terfynol a chytunwyd pa mor dda y gweithiodd pawb i gyflawni cymaint.

## 6 Strategaeth y Comisiwn 2016-2021

Adolygwyd drafft pellach o'r strategaeth i sicrhau'r Bwrdd ei bod yn adlewyrchu'r trafodaethau, yn gysylltiedig â'r gyllideb ac yn dangos y lefel gywir o uchelgais, gan sicrhau parhad ar yr un pryd. Trafododd y Bwrdd rai mân newidiadau, ond cytunwyd bod y drafft yn dda fel arall.

Bydd y strategaeth yn cael ei chyflwyno i gyfarfod y Comisiwn ar 30 Mehefin.

Cytunwyd na fyddai papurau drafft y Comisiwn yn cael eu cyhoeddi'n fewnol ac y byddai Dave Tosh yn egluro Cylch Gorchwyl y Bwrdd Rheoli.

## 7 Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2015-16

Roedd yr Adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ar fin cael eu cwblhau a gofynnwyd i'r Bwrdd roi gwybod am unrhyw sylwadau erbyn hanner dydd 13 Mai, cyn i'r drafft terfynol gael ei anfon i Swyddfa Archwilio Cymru ei adolygu. Rhoddodd y Bwrdd ganmoliaeth i Nia Morgan a'r tîm Cyllid, Chris Warner ac eraill am eu gwaith ar yr adroddiad.

## 8 Diweddariad Dangosfwrdd Adnoddau Dynol

Gwelodd y Bwrdd gopi o’r Dangosfwrdd Adnoddau Dynol i'w nodi ac fe'i hysbyswyd y byddai trafodaeth lawn ar reoli absenoldeb yn cael ei chynnal yng nghyfarfod y Bwrdd ar 20 Mehefin. Nid oedd lwfansau wedi'u cynnwys yn y dangosfwrdd oherwydd y cytunwyd i gadw'r dangosfwrdd yn syml. Fodd bynnag, roedd hyn yn rhan o'r trafodaethau rhwng Partneriaid Busnes Adnoddau Dynol a Phenaethiaid Gwasanaeth.

## 9 Adroddiad Rheolaeth Ariannol - Ebrill 2016

Hefyd, derbyniodd y Bwrdd yr adroddiadau Cyllid ar gyfer mis Mawrth a mis Ebrill i'w nodi. Dywedodd Nia Morgan wrth y Bwrdd fod costau'r etholiad o fewn y gyllideb o hyd, gan ddisgwyl costau diswyddo staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, nad oeddent ar gael eto.

**Cloi'r cyfarfod**

## 10Unrhyw Fusnes Arall

Er mwyn symud ymlaen â phrosiect y system gyllid, gofynnwyd i'r Bwrdd roi adborth ar y strwythur codio i Lisa Bowkett cyn gynted â phosibl.

Cyhoeddodd y tîm Ymchwil ai adroddiad 'Materion o Bwys' heddiw.

Gofynnodd Claire Clancy i'r Penaethiaid ddiolch i'w timau a rhoi gwybod iddynt ei bod yn falch iawn o'u gwaith mewn perthynas â'r gwaith o bontio i'r Pumed Cynulliad.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd Rheoli ar 20 Mehefin.